Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant (APS)**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant
Rhif y fersiwn:	3
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	22 Medi 2025
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	Medi 2025
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2028
Y fersiwn a ddisodlir:	2
Dogfennau cysylltiedig:	Polisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru Polisi TG Padarn Sant Polisi Atal Padarn Sant Canllawiau Gweinidogaethol Proffesiynol yr Eglwys yng Nghymru Polisi Disgyblu Padarn Sant I Ddygwyr Arferol Polisi Disgyblu i Ddysgwyr Achlysurol Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb Padarn Sant Polisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Canllawiau Gweinidogaethol Broffesiynol yr Eglwys yng Nghymru

Hanes y ddogfen			
Fersiwn	**Dyddiad**	**Awdur**	**Nodiadau ar yr adolygiadau**
1	9 Gorffennaf 2019	Kathryn Delderfield	
2	Mehefin 2022	Kathryn Delderfield	• Dogfennau perthnasol wedi eu diwygio

Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant (APS)

Cymuned ddysgu Gristnogol yw Padarn Sant, ac mae'n rhan annatod o'r Eglwys yng Nghymru. Felly, mae ei hegwyddorion yn seiliedig ar y cysyniadau beiblaidd – sef cariad a pharch tuag at unigolion, eiddo a'r amgylchedd. Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn berthnasol i bawb sy'n ymhél â gweithgareddau Padarn Sant, tra bydd eu cysylltiad â'r gweithgareddau hyn yn parhau. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr, pobl eraill sy'n cymryd rhan yn hyfforddiant Padarn Sant a gwirfoddolwyr. Daw'r staff dan God Ymddygiad Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

Disgwylir i'r rhai sy'n ymhél â gweithgareddau Padarn Sant wneud y canlynol:

- dangos cariad, ynghyd â rhinweddau cysylltiedig parch ac ystyriaeth, tuag at eraill, yn cynnwys staff, dysgwyr a chymunedau lleol
- ymddwyn yn gyfiawn, yn deg ac yn anrhydeddus fel mynegiant o'u hymrwymiad i gymuned Padarn Sant
- mabwysiadu dull diwyd a chydweithredol o safbwynt pob agwedd ar fywyd academaidd, yn cynnwys presenoldeb a chyflwyno gwaith
- ysgwyddo cyfrifoldeb dros greu a chynnal cymuned ddysgu gefnogol lle y gall pawb reoli'u dysgu eu hunain a thrysori'r cyfraniad a wna pob unigolyn
- cynnal enw da Padarn Sant a'r Eglwys yng Nghymru

Mae'r rhestr ganlynol, nad yw'n gynhwysfawr, yn cynnwys enghreifftiau penodol o ymddygiad nad ydynt yn bodloni'r disgwyliadau uchod, gan eu gwneud felly yn annerbyniol. Efallai y byddant yn arwain at roi'r mesurau disgyblu ffurfiol perthnasol ar waith ac, mewn rhai amgylchiadau, at hysbysu'r awdurdodau priodol:

- ymddwyn mewn modd sy'n cyfateb i drosedd, yn cynnwys ymosod, dwyn ac unrhyw ffurf ar drosedd casineb

- iaith neu ymddygiad anweddus, camdriniol neu dramgwyddus, unrhyw ffurf ar athrodi, bwlio neu aflonyddu – yn cynnwys dros y ffôn, cyfryngau cymdeithasol, neu gyfryngau electronig eraill.
- difrod i eiddo pobl eraill, eiddo'r Eglwys yng Nghymru neu eiddo Padarn Sant
- twyll, anonestrwydd
- tarfu ar weithgareddau academaidd, gweinyddol neu gymdeithasol, neu weithgareddau o fath arall, mewn perthynas ag Athrofa Padarn Sant, ei dysgwyr, ei staff neu ei hymwelwyr
- torri polisïau, rheolau neu reoliadau Padarn Sant
- ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar Athrofa Padarn Sant neu'r Eglwys yng Nghymru

Caiff disgwyliadau mewn perthynas â'r canlynol eu nodi'n llawnach mewn polisïau ar wahân.

- diogelu plant ac oedolion agored i niwed (gweler Polisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru)
- defnyddio'r rhyngrwyd (Polisi TG Padarn Sant)
- materion yn ymwneud ag eithafiaeth (Polisi Atal Padarn Sant)

Bydd disgwyl hefyd i glerigion a'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth ymddwyn yn unol â rhannau perthnasol Canllawiau Gweinidogaethol yr Eglwys yng Nghymru.